## PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 18 Rhagfyr 2002 |
| **Amser:** | 9.15am tan 12.00pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

## SEFYLLFA BRESENNOL CYNLLUN GOFODOL CYMRU

### Diben

1. Yn y cyfarfod ar 29 Mai 2002 gwnaeth y Pwyllgor gais i gael ei hysbysu am hynt y cynllun.

   **Crynodeb**

2. Mae'r papur hwn yn nodi sefyllfa bresennol Cynllun Gofodol Cymru.

   **Amseru**

3. Yn gynnar yn 2003 cynhelir dadl yn y Senedd ar y Mesur Cynllunio a Phrynu Gorfodol. Mae hyn yn gosod dyletswydd ar y Cynulliad i baratoi Cynllun Gofodol Cymru.
4. Fel a esboniwyd isod, bwriedir cyhoeddi Cynllun Gofodol Cymru ar gyfer ymgynghori yn nhymor yr haf 2003. Bydd y Pwyllgor am drafod Cynllun Gofodol Cymru cyn ei gyhoeddi.
5. Fy mwriad yn wreiddiol oedd cyhoeddi drafft cyntaf Cynllun Gofodol Cymru ym mis Mawrth 2003. Ond ni fydd peth o'r data allweddol o gyfrifiad 2001 ar gael tan fis Chwefror 2003 a rwyf am sicrhau bod y data sy'n sylfaen i'n gwaith mor berthnasol â phosibl.. Golyga hyn y bydd oedi wrth gyhoeddi'r drafft ar gyfer ymgynghori. Ar ôl yr ymgynghoriad hwn byddi Cynllun Gofodol Cymru yn barod i'w gyflwyno i'r Cynulliad ei gymeradwyo.
6. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol ein bod wedi comisiynu ymchwil i lywio datblygiad drafft Cynllun Gofodol Cymru gan gynnwys digwyddiadau'r budd-ddeiliaid. Ystyriaf y bydd hyn yn anghyflawn os nad yw'n adlewyrchu'r darlun diweddaraf a geir gan gyfrifiad 2001. Cyn iddynt gwblhau'r fersiwn terfynol bwriadaf sicrhau bod yr ymchwil yn cynnwys data'r cyfrifiad.

7. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ymwybodol bod y Cynulliad wedi cynnal gweithdai ar yr

ymgynghoriad yn yr haf. Ers hynny rydym wedi cynnal seminarau pellach gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a phartneriaid busnes. Fel y mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen a chyn i'r ymgynghoriad swyddogol gychwyn, byddwn yn ceisio cyfleoedd pellach i weithio gyda grwpiau eraill â budd. Rwyf wedi sicrhau cyllid i hwyluso datblygiad y cynllun, ac yn arbennig ar gyfer hyrwyddo cydweithio rhwng y rhanbarthau. Byddwn ni a'n partneriaid yn trafod sut orau y gallwn dargedu hyn.

8. Yn ddiweddar rhoddais gyflwyniad i Gyngor Ewropeaidd y Cynllunwyr Tref i ddangos ein hymrwymiad i gynllunio gofodol fel modd o hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Croesawodd y cynrychiolwyr ein dull o weithio gan gydnabod, yn nhermau'r DU, bod Cymru yn arwain o ran datblygu polisïau yn y maes hwn. Byddwn ni yn ein tro yn manteisio ar brofiadau'n cysylltiadau yn Ewrop.

**Cydymffurfio, Goblygiadau Ariannol ac Effeithiau Eraill**

9. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer paratoi'r Cynllun i'w gweld yn Adran 40 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 sy'n caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud unrhyw beth sy'n gysylltiedig â hwyluso'r gwaith o arfer ei swyddogaethau, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â chynllunio. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol yn codi o'r paratoadau ar gyfer Cynllun Gofodol Cymru.

**Themâu trawsbynciol**

10. Mae Cynllun Gofodol Cymru yn rhoi cyfle i ddarparu persbectif gofodol ar gyfer datblygu a gweithredu polisi, Mae iddo berthynas glir â Chynllun Datblygu Cynaliadwy y Cynulliad yn ogystal â pholisïau a strategaethau eraill. Bydd hefyd yn adlewyrchu ymrwymiad y Cynulliad i daclo anfantais cymdeithasol a hyrwyddo cyfle cyfartal. Bydd Gwerthusiad Cynaliadwyedd yn cael ei gynnal ar adegau allweddol yn ystod datblygiad y cynllun, a bydd hyn yn cael ei hwyluso gan Forum for the Future.

**Cynllunio a’r Mesur Prynu Gorfodol**

11. Ym mis Mai rhoddais wybod i'r Pwyllgor fy mod yn bwriadu ceisio'i gwneud hi'n ddyletswydd statudol ar y Cynulliad i baratoi Cynllun Gofodol Cymru. Mae'r Mesur Cynllunio a Phrynu Gorfodol a gyflwynwyd gerbron y Senedd y mis hwn yn gwneud cynnig ar gyfer dyletswydd o'r fath. Atodiad 1 yw'r cymal perthnasol yn y Mesur a'r nodiadau esboniadol. Mae'n dangos pwysigrwydd ac ymrwymiad parhaus y Cynulliad i baratoi'r Cynllun, a'i arwyddocâd mewn perthynas â'r system cynllunio defnydd tir.
12. Wrth geisio'r ddyletswydd hon, rwyf wedi defnyddio dull hyblyg i helpu i sicrhau bod y cynllun gofodol yn effeithiol o ran y system defnyddio tir, tra'n parhau i fod yn berthnasol i faterion polisi ehangach. Felly fe fydd Cynllun Gofodol Cymru hefyd yn ymdrin â materion sydd yn draddodiadol ar y tu allan i gylch gwaith cynllunio defnydd tir.
13. Bydd gofyn i'r Cynulliad ymgynghori'n eang tra'n paratoi'r Cynllun, ei adolygu'n gyson a'i

ddiwygio lle y bo hynny'n angenrheidiol. Trwy Bwyllgor neu Gyfarfod Llawn, bydd y Cynulliad yn craffu ar y Cynllun cyn iddo gael ei gymeradwyo yn y cyfarfod llawn.

**Camau i'w Cymryd gan Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth**

14. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r papur hwn a'i ddefnyddio fel canolbwynt i'w trafodaeth. Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno cyn cyhoeddi Cynllun Gofodol Cymru ar gyfer ymgynghori. Caiff y Pwyllgor ei hysbysu am hynt y Mesur Cynllunio a Phrynu Gorfodol.

**Sue Essex AC**

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd**